# RHYBUDD CYHOEDDUS

## Cyngor Gwynedd
## Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983

(Adrannau 18A, 18B, 18C, 18D and 18E ac Atodlen A1)

### Rheoliadau Adolygu Dosbarthiadau Pleidleisio a Safleoedd Pleidleisio (Etholiadau Seneddol) 2006

Yn unol â gofynion adran 18C(1) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, rhoddir rhybudd drwy hyn fod Cyngor Gwynedd yn adolygu dosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio sydd o fewn ardal y Cyngor ar gyfer eu defnyddio mewn perthynas ag etholiadau seneddol a gynhelir yn etholaethau:

**Dwyfor Meirionnydd**
**Bangor Aberconwy**

Bydd yr adolygiad yn cychwyn ar 23 Medi 2024. Mae'r Swyddogion Canlyniadau Gweithredol ar gyfer y ddwy etholaeth wedi cyflwyno sylwadau am y gorsafoedd pleidleisio presennol yn y rhanbarthau pleidleisio. Gellir gweld y manylion yn yr **Atodlen.**

Gofynnir am sylwadau ar drefniadau dosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio o fewn ffin Cyngor Gwynedd neu ynglŷn â hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio gan etholwyr oddi fewn yr etholaethau ynghyd â phartïon eraill â diddordeb, gan gynnwys rhai sydd ag arbenigedd mewn mynediad i bobl sydd ag unrhyw fath o anabledd.

Dylid cyflwyno sylwadau ar y trefniadau cyfredol drwy ysgrifennu at Y Swyddfa Gofrestru Etholiadol, Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH neu drwy e-bost: etholiad@gwynedd.llyw.cymru erbyn 1 Tachwedd 2024 . Os yn berthnasol, dylai sylwadau gynnwys manylion am leoliadau arall gellir eu defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio.

Bydd y wybodaeth ar gael i'w harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol (dydd Llun i ddydd Gwener yn unig) yn y cyfeiriad uchod neu ar wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru.

**Iwan G D Evans**
**Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol**

**23 Medi 2024**